**COFNODION BWRDD DIWYDIANT BWYD A DIOD CYMRU**
**25 Medi 2015**
**CANOLFAN DIWYDIANT BWYD CAERDYDD**

**YN BRESENNOL**
Alison Lea-Wilson (ALW)
Andy Richardson (AR)
Anitta Engel (AE)
Catherine Fookes (CF)
David Lloyd (DL)
Marcus Sherreard (MS)
Huw Thomas (HT)
James Wilson (JW)
Justin Scale (JS)
Justine Fosh (JF)
Katie Palmer (KP)
Dr Norma Barry (NB)
Andrew Slade, WG (AS) – Cadeirydd dros dro
Peredur John, WG (PJ)
Ruth Akers, WG (RA)
Medwyn Roberts, WG (MR)

**YMDDIHEURIADAU**
Rebecca Evans AC, y Dirprwy Weinidog Amaeth a Bwyd
Keith Smyton, Llywodraeth Cymru
David Morris, Llywodraeth Cymru
Buster Grant
Llior Radford

**Eitem 1: Croeso a chyflwyniadau – y Cadeirydd Dros Dro**

- Yn rhinwedd ei swydd fel y Cadeirydd dros dro, croesawodd Andrew Slade bawb i'r cyfarfod a gwahoddodd bawb i gyflwyno'u hunain gan mai hwn oedd cyfarfod cyntaf y Bwrdd llawn.
- Tynnodd y Cadeirydd sylw at y broses y cytunwyd arni i ethol Cadeirydd / Is-gadeirydd newydd, sef:
  - Gofyn am enwebiadau erbyn y cyfarfod ym mis Rhagfyr; yna cynnal pleidlais gyfrinachol a fyddai'n dod i ben ddechrau mis Ionawr. Byddai'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi cyn y cyfarfod ar 28 Ionawr 2016.
  - Byddai pob aelod yn cael pleidleisio dros 1 ymgeisydd i lenwi 1 rôl.
  - Os oedd pleidlais gyfartal, Gweinidogion Llywodraeth Cymru fyddai'n cael y penderfyniad terfynol.
- Roedd yr aelodau'n pryderu am yr amser yr oedd angen ei neilltuo i waith y Cadeirydd. Clywodd yr aelodau y byddai disgrifiad o rôl y Cadeirydd / Is-gadeirydd yn y pecyn i ymgeiswyr.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2015 (FDWIB (15) M02)**
- Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

**Eitem 3: Y wybodaeth ddiweddaraf am Fwrdd y Rhaglen – y cerrig milltir allweddol a'r amserlenni ar gyfer rhoi'r Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod ar waith**

- Cafodd yr aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am Fwrdd y Rhaglen. Gwahoddodd yr ysgrifenyddiaeth aelodau'r Bwrdd i roi sylwadau ar y dangosfwrdd i helpu i wella'r cynllun a'r cynnwys.

**Eitem 4: Materion yn ymwneud â'r diwydiant**

- Cafodd yr aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o'r diwydiant llaeth a gynhaliwyd yn ddiweddar a oedd yn cynnwys 26 o argymhellion. Un o'r rhain oedd y dylid sefydlu Bwrdd Arwain Llaeth. Mae hwn wedi'i sefydlu'n awr ac mae'n cynnwys 4 o aelodau ac mae gan bob un ohonynt gyfrifoldeb am faes penodol.

- Rhoddodd y Bwrdd Masnach Organig gyflwyniad ar eu hymgyrch llwyddiannus i ehangu'r farchnad organig a'u cynigion i ddefnyddio swm sylweddol o gyllid Ewropeaidd i'w hehangu ymhellach.

**Eitem 5: Blaenoriaethau'r Bwrdd**

- <u>Cylch gorchwyl</u>
  Yr ysgrifenyddiaeth i adolygu'r cylch gorchwyl drafft ac i'w ddosbarthu i aelodau'r Bwrdd cyn y diwrnod cwrdd i ffwrdd ym mis Rhagfyr.
- Tynnodd y Cadeirydd dros dro sylw at y ffaith y byddai angen i holl waith y Bwrdd gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gan hynny, byddai'n bwysicach fyth mabwysiadu syniadau strategol mwy hirdymor. Roedd y cylch gorchwyl yn gyfle da i gyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fel y gwnaed yn achos y Bwrdd Arwain Llaeth.
- <u>Dulliau o weithio</u>
  Cytunwyd y byddai'r Bwrdd yn parhau i weithredu o dan Reolau Chatham House, gan gyhoeddi fersiynau cryno o'u cyfarfodydd ar-lein a pharatoi adroddiad blynyddol i Weinidogion.
- I baratoi at y diwrnod cwrdd i ffwrdd, gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd lenwi ffurflen yn amlinellu eu set sgiliau, eu profiad, eu rhwydweithiau, a'r hyn a oedd wedi dylanwadu arnynt etc. Byddai hyn yn o ddefnydd i'r aelodau ar gyfer y diwrnod cwrdd i ffwrdd.
- Trafodwyd siaradwyr i'w gwahodd i'r cyfarfodydd nesaf a'r eitemau i'w cynnwys ar yr agenda
- Ystyriodd yr Aelodau gynnal Blwyddyn Bwyd a Diod Cymru yn 2017.
- Sioe Frenhinol Cymru – yr Adran Fwyd i ystyried y posibilrwydd o gynnal arddangosfa debyg mewn man cyhoeddus a'r posibilrwydd i'r Bwrdd gynnal trafodaeth â'r Sioe yn y dyfodol.
- Yn ystod yr egwyl amser cinio, rhoddodd Ifor Ffowcs-Williams, Prif Weithredwr Cluster Navigators, gyflwyniad i'r Bwrdd. Cyflwynir rhaglen waith fis Hydref i ddatblygu amrywiaeth o glystyrau, gan gynnwys Cyfnod Silff, Tyfu'n Gyflym, Micro-fusnesau a Bwyd Iach, y byddai ef yn ei arwain.
- Mae rhaglen newydd yn cael ei chynllunio i ddatblygu clystyrau drwy ddefnyddio model yr Helics Triphlyg (y sector cyhoeddus, prifysgolion a'r sector preifat) dan arweiniad busnes, ac sy'n defnyddio adnoddau'n benodol i sicrhau canlyniadau masnachol real i fusnesau, gan hefyd sicrhau bod y cymorth a gynigir yn gydnaws ag amcanion strategol ehangach Llywodraeth Cymru.

**Eitem 6 a 7: Cyflwyniad ar hunaniaeth gan Heavenly ac FRSA Brand Inspiration Limited**

- Cafwyd dau gyflwyniad; y cyntaf yn ymwneud â chanlyniadau'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda defnyddwyr a'r gwaith ymgysylltu a gynhaliodd Heavenly â manwerthwyr ynghylch hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru, a'r ail gan ymgynghorwyr marchnata annibynnol ynghylch cyfleoedd brandio.

**Eitem 8: Cyflwyniad ar y Comisiynydd Cynaliadwyedd – Peter Davies**

- Cafwyd cyflwyniad ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a rôl y sector yn y gwaith o arwain twf gwyrdd a'r Siarter Datblygu Cynaliadwy.

**Eitem 9: Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf**

- Yr ysgrifenyddiaeth i drefnu dyddiad ddiwedd mis Hydref/ dechrau mis Tachwedd ar gyfer y diwrnod cwrdd i ffwrdd. Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd yn Aberystwyth ar 3 Rhagfyr. Eitemau posibl i'w cynnwys ar agendâu'r cyfarfodydd nesaf i'w dosbarthu.

**Eitem 10: Unrhyw fater arall**

- Cam i'w gymryd: Yr Adran Fwyd i ddechrau paratoi at y gynhadledd ym mis Medi 2016.
- Awgrymwyd y dylid gwahodd James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol i un o gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.